

## **CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS**

CLERC : John MacLennan, 19, Lon Garnedd, Abergele, LL22 7EW Ffon : 01745 826901 Sym : 07903328655 e-bost : [johnmaclellennan9@icloud.com](mailto:johnmaclellennan9@icloud.com)

MUNUDAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AM 7.00y.h. NOS FAWRTH, RHAGFYR 6ed, 2016, YN Y GANOLFAN, LLANELIAN YN RHOS.

1. CROESO - Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod
  
2. YN BRESENNOL - Y Cadeirydd, y Cynghorydd Tudur W. Jones; yr Is-Gadeirydd , y Cynghorydd Hefin Williams, a'r Cynghorwyr D.Rhys Davies; Goronwy Davies; Eifion Evans; Bryn Jones; Gwyndaf O.Roberts; John D.Roberts; Goronwy R.Williams a Cynghorydd Sir Conwy Ifor G.Lloyd.
  
3. YMDDIHEURIADAU - Y Cynghorwyr Irwedd Griffiths; D.Gwyn Jones ac Ifor O.Jones.
  
4. DATGANIADAU O DDIDDORDEB - Dim
  
5. MUNUDAU - PENDERFYNWYD cadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo munudau cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar Tachwedd 7fed, 2016, yn Neuadd y Pentref, Betws yn Rhos.
  
6. MATERION YN CODI -
  - 10.16/15(ii) Yr Archwiliad Allanol – Mi ddaru'r Cyngor drafod yr adroddiad yn helaeth, Penderfynwyd weithredu yr argymhelliadau yn yr archwiliad nesaf, ddaru phob aelod gael copi o'r adroddiad. PENDERFYNWYD gymeradwyo yr archwiliad am 2015/2016.
  - 10.16/15(v) Prynu'r diffribiliwr ar gyfer Canolfan Gymuned Llanelian. Mae'r fater hon dal gael ei drafod.
  - 10.16/15(vi) Gwrychoedd wedi gor-dyfu yn Nhŷ Gwyn, Ffordd Abergele. Mae'r fater hon byth wedi ei weithredu.
  - 10.16/15(vii) Coeden yn tyfu allan o wal yr ysgol. Mae hyn wedi ei ddatrys
  - 11.16/14(i) Carafan wedi ei pharcio ym Mryn y Maen. Mae'r carafan wedi ei symud.
  - 11.16/14(ii) Y Gadlas – Mae'r Gadlas un gofyn fod y cofnodion yn fyrrach.

11.16/14(iii) Gwrychoedd wedi gor-dyfu yn Ffordd Phenryn. Adroddodd y Cynghorydd Lloyd fod yr adran ERF yn meddwl gwasanaethu ffurflen ar perchennog y tir.

11.16/14(iv) Gro gorfodol yn yr afon. Yr oedd CNC ddim wedi ateb gofyniad y Cyngor, adroddwyd hefyd fod yna gordyfiant yn yr afon.

11.16/14(v) Finiau gwastraff ger yr Wheatsheaf. Adroddwyd y fater hon i Cyngor Conwy.

11.16/14(vi) Gysgod fysiau. Cafwyd phob aelod copi o polisi y Cyngor Sir ar y mater hon.

7. GOHEBIAETH GYFFREDINOL - Dim

8. CYLLID - PENDERFYNWYD nodi ac arwyddo'r adroddiadau Banc am y cyfnod yn gorffen ar Dachwedd 21ain, 2016, sef:-

Cyfrif cymunedol .....  
£21,128.04

Cyfrif busnes .....£5525.50

Atgoffwyd aelodau bod £15,000 o'r cyfrif cymunedol yn arian a roddwyd i'r gymuned o'r parc heulol. Roedd hwnnw i gael ei drosglwyddo i gyfrif ar wahân unwaith yr oedd y pwyllgor grantiau wedi ei sefydlu. PENDERFYNWYD agor cyfrif gyda Banc Barclays cyn gynted â phosibl.

9. TALIADAU A DDERBYNIWYD - Dim.

10. TALIADAU A WNAED - PENDERFYNWYD TALU'r eitemau a restrir isod:-

i.	12.16/10(i) Cyflog y Clerc .....	£ 287.23
ii.	12.16/10(ii) HMRC...(Bacs).....	£ 71.81
iii.	12.16/10(iii) Hanner cost y cyfieithu .....	£ 15.05
iv.	12.16/10(iv) Torch Sul y Cofio .....	£ 16.00
v.	12.16/10(v) Treuliau chwarter y clerc.....	£ 75.00
vi.	12.16/10(vi) Stamps.....	£ 23.04
vii.	12.16/10(vii) Deunydd ysgrifennu.....	£ 31.61

11. CEISIADAU AM GRANTIAU - Dim

12. MATERION SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD

4.16/12(i) Adroddiad yn ymwneud â materion Archwiliad Ward. Fydd yr holl faterion yn gael eu ddelio hefo yn y flwyddyn newydd.

13. MATERION CYNULLIAD CYMRU - Dim.

14. MATERION CYFFREDINOL O FEWN Y GYMUNED

12.16/14(i) Yr oedd Aelodau yn pryderu am gyllis yn yr ardal wedi eu flocio, adroddodd y Cynghorydd Lloyd fod y materion yn gael eu weithredu gan Mr Mike Heathcote a dan adran 152.

12.16/14(ii) Tyllau yn y ffordd ar Ffordd Galch. Yr oedd rhain yn mynd yn waeth.

12.16/14(iii) Yr oedd y ffordd ger Tai, Trofarth yn peryglys oherwydd tyllau ffordd.

12.16/14(iv) Yr oedd cwynion am carreg yn y ffordd ger Nyth y Wennol.

15. UNRHYW FATER ARALL

12.16/15(i) Adroddodd y Cynghorydd Bryn Jones fod y cyngerdd flynyddol o dan y coeden nadolig yn llwyddus iawn. Diolchodd y Cadeirydd y Cynghorydd Bryn Jones am yr holl waith yr oedd wedi ei wneud yn baratoi y coeden a osod y goliadau. Adroddodd y Cynghorydd Jones hefyd yr oedd rhaid edrych am coeden arall i osod y goliadau flwyddyn nesaf.

16. CYNLLUNIO -

12.16/16(i) 0/43418 Codi adeilad amaethyddol (Cymeradwyaeth amaethyddol ymlaen llaw) yn Tyn Llwyn Ffordd Llanrwst, Bryn y Maen. PENDERFYNWYD DIM WRTHWYNEBIAD.

12.16/16(ii) 0/43403 Cais rhannol ol-weithredol i gadw pwll ac thac weduhail leoli, dymchwel sied ieir presennol a rhoi 1 dwnel polythen yn ei le i dyfu ffrwythau a llysiau salad, newid defnydd 2 cyn siediau ieir presennol er mwyn lledaenu a chynyddu eginblanhigion storio a didoli planhigion a lagwn dyfrhau yn Oak Tree Farm, Ffordd Ffynhonnau, Betws yn Rhos. PENDERFYNWYD DIM WRTHWYNEBIAD.

12.16/16(iii) 0/43463 Adeiladu porth yn Ffrith Bach, Trofarth, Llangernyw. PENDERFYNWYD DIM WRTHWYNEBIAD.

Yr oedd ddim fwy o fusnes i'w drafod a gorffennodd y cyfarfod am 9.15.yh.

CADEIRYDD.....DYDDIAD.....  
.....